Ar hyn o bryd mae Coleg Sir Benfro am benodi Asesydd i weithio gydag ymgeiswyr yn eu gweithle i'w galluogi i ennill eu cymwysterau. Bydd y rôl yn cynnwys cynnal asesiadau yn y gweithle, cynorthwyo ymgeiswyr i baratoi eu portffolio o dystiolaeth, cynnal adolygiadau cynnydd a chysylltu'n rheolaidd ag ymgeiswyr a chyflogwyr.

## Asesydd mewn Peirianneg

**Manylion Cyflog:** £26,827-£29,808 BAR £30,808 - £33,706 y flwyddyn
Mae hon yn raddfa estynedig 8 pwynt gyda dilyniant yn gynyddrannol bob blwyddyn. Sylwch, mae dilyniant y tu hwnt i'r bar yn dibynnu ar set fewnol o amodau. Bydd cyflogau cychwynnol yn cael eu hasesu yn unol â matrics cyflogau cychwynnol y Coleg.

**Oriau Gwaith:** Llawn amser - 37 awr yr wythnos

**Math o Gontract:** Cyflogedig - Parhaol

**Hawl Gwyliau:** 28 diwrnod o wyliau blynyddol (yn cynyddu i 32 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth) ynghyd â Gwyliau Banc Statudol a diwrnodau Cau'r Coleg y flwyddyn

**Cymwysterau:**

- Mae'n hanfodol meddu ar NVQ lefel 3 o leiaf mewn disgyblaeth beirianneg berthnasol;
- Yn ddelfrydol bydd gennych hefyd gymhwyster asesu cydnabyddedig (fel Dyfarniad A1 neu gyfwerth) a Chymhwyster Dilysu Mewnol. *Os nad oes gennych y cymhwyster hwn, bydd Coleg Sir Benfro yn eich cefnogi i ennill hwn yn ystod eich cyflogaeth, o fewn amserlen y cytunwyd arni.*

Profiad diweddar o weithio yn y diwydiant Peirianneg a all gynnwys meysydd cynnal a chadw trydanol a/neu offeryniaeth. Yn ddelfrydol, bydd gennych hefyd rywfaint o brofiad o gymwysterau seiliedig ar waith.

Byddwch yn hunan-gymhellol, yn frwdfrydig ac yn gyfforddus yn gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Bydd gennych hefyd sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol a'r gallu profedig i ysgogi unigolion tuag at gyflawni nodau cytunedig.

Byddwch yn gallu cefnogi dysgwyr i ennill eu cymwysterau Peirianneg Lefel 2 a 3, a ffurfio cyswllt hanfodol rhwng y coleg a chyflogwyr. Byddwch yn asesu gwaith dysgwyr yn y gweithle ac yn trosglwyddo eich gwybodaeth a'ch profiad. Disgwylir i aseswyr gefnogi dysgwyr i wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd.

Mae'n ofynnol cael mynediad at gludiant gan fod teithio aml yn hanfodol i'r swydd. Cynhelir asesiadau, arsylwadau a chyfarfodydd adolygu naill ai wyneb yn wyneb neu o bell gan ddefnyddio llwyfannau technolegol amrywiol. Eich man gwaith cytundebol fydd eich cartref a byddwch yn cael y gyfradd milltiredd berthnasol ar gyfer teithiau busnes. Byddwch hefyd yn cael ffôn symudol a gliniadur ar gyfer yr holl gyfathrebu busnes.

Pembrokeshire College is currently seeking to appoint an Assessor to work with candidates in their workplace to enable them to gain their qualifications. The role will include undertaking assessments in the workplace, assisting candidates in the preparation of their portfolio of evidence, carrying out progress reviews and regularly liaising with both candidates and employers.

## Assessor in Engineering

**Salary Details:** £26,827- £29,808 BAR £30,808 - £33,706 per annum
This is an 8 point extended scale with progression incrementally on an annual basis. Please note, progression beyond the bar is dependent on an internal set of conditions. Commencing salaries will be assessed in accordance with the College's starting salaries matrix.

**Hours of Work:** Full-time - 37 hours per week

**Contract Type:** Salaried - Permanent

**Holiday Entitlement:** 28 days Annual Leave (increasing to 32 days on completion of 5 years' service) plus Statutory Bank Holidays & College Closure days per annum

**Qualifications**:

- It is essential to hold an NVQ at minimum level 3 in a relevant engineering discipline and;
- Ideally you will also hold a recognised assessing qualification (such as A1 Award or equivalent) and an Internal Verification Qualification. *If you do not hold this qualification, Pembrokeshire College will support you in gaining this during your employment, within an agreed timescale.*

Recent experience of working in the Engineering industry which may include the areas of electrical maintenance and/or instrumentation. Ideally, you will also have some experience of work-based qualifications.

You will be self-motivated, enthusiastic and comfortable working both independently and as part of a team. You will also possess excellent interpersonal and communication skills and have the proven ability to motivate individuals towards achieving agreed goals.

You will be able to support learners to gain their Level 2 and 3 Engineering qualifications, and form a vital link between the college and employers. You will assess learners' work in the workplace and pass on your knowledge and experience. Assessors are expected to support learners to improve their literacy, numeracy and digital skills, and promote the use of Welsh Language wherever possible.

It is a requirement to have access to transport as frequent travel is critical to the position. Assessments, observations and review meetings take place either face to face or remotely using various technological platforms. Your contractual place of work will be your home and you will be paid the applicable mileage rate for business travel. You will also be provided with a mobile phone and laptop for all business communication.